**Y Pwyllgor Cyllid**
**Finance Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

4 Hydref 2016

Annwyl Nick

**Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft**

Ar 29 Medi 2016, ystyriodd y Pwyllgor Cyllid argymhellion Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn dilyn ei ymgynghoriad ynghylch y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft.

Er ei bod yn bosibl i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) fel bil pwyllgor, mae'n rhaid paratoi Memorandwm Esboniadol (ME) llawn ac asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Bil.

Wrth ystyried hyn, cytunodd y Pwyllgor y byddai angen gweld gwybodaeth ariannol ddibynadwy o blaid yr ymyrraeth ddeddfwriaethol arfaethedig, cyn gwneud penderfyniad terfynol i gyflwyno'r Bil.

Yr wyf yn deall bod Cadeirydd blaenorol Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad wedi ysgrifennu atoch fis Chwefror 2016 (Atodiad A) yn gofyn ichi ddechrau gwaith paratoadol ar y wybodaeth y byddai ei hangen ar gyfer y Memorandwm Esboniadol.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth hon ac, yn benodol, y data ariannol manwl sy'n ofynnol ar gyfer yr asesiad effaith rheoleiddiol o dan Reol Sefydlog 26.6(viii):

> *(vi) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:*
>
> *(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;*
>
> *(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;*

**Bethan Davies**
**Clerc/Clerk:**
**Ffôn/Phone: 0300 200 6372**
**E-bost / E-mail: Bethan.Davies@cynulliad.cymru**

*(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;*

*(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r costau holl gostau ac arbedion hynny godi; ac*

*(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;*

Mae hefyd yn werth nodi bod y Cynulliad, ers cais y Cadeirydd blaenorol, wedi penderfynu diwygio Rheol Sefydlog 26.6(viii) i gynnwys gofynion newydd (b) ac (c).

Cyn gynted ag y bydd y Pwyllgor wedi cael y wybodaeth hon gennych chi, mae'n debygol y bydd yn dymuno'ch gwahodd i gyfarfod i ystyried y wybodaeth ariannol ac i drafod y Bil drafft yn fanylach.

Yn gywir

**Simon Thomas AC**
**Cadeirydd Pwyllgor**

**Bethan Davies**
**Clerc/Clerk:**
**Ffôn/Phone: 0300 200 6372**
**E-bost / E-mail: Bethan.Davies@cynulliad.cymru**

Atodiad A

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Finance Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymru

10 Chwefror 2015

Annwyl Nick

**Ymchwiliad i Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Ar ran y Pwyllgor Cyllid, hoffwn ddiolch i chi am ddod i'n cyfarfod ar 21 Ionawr 2015 i drafod y newidiadau yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud i *Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005* i gryfhau rôl yr Ombwdsmon.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i ystyried pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid perthnasol i lywio ein gwaith. Fel y gwyddoch, bwriad y Pwyllgor yw adrodd ar ei ganfyddiadau a phe bai'r dystiolaeth yn cefnogi'r syniad o ymestyn pwerau, caiff y Pwyllgor ystyried cyflwyno Bil Pwyllgor.

Er na fyddwn yn dymuno rhagdybio canlyniad ein hymchwiliad, pe bai'r Pwyllgor yn ystyried cyflwyno Bil, byddai angen gwybodaeth ariannol a thystiolaeth gadarn i gefnogi hyn. Fel y byddwch yn sylweddoli, mae gan y Pwyllgor Cyllid rôl o ran craffu ar agweddau ariannol unrhyw Fil a gyflwynir i'r Cynulliad. Mae'n hanfodol bod unrhyw Fil arfaethedig a gyflwynir gan y Pwyllgor, yn cynnwys y wybodaeth ariannol gadarn.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol fod Bil yn cael ei gyflwyno gyda Memorandwm Esboniadol. Mae Rheol Sefydlog 26.6 yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn Memorandwm Esboniadol.

Rhaid i'r Memorandwm gynnwys tystiolaeth o'r **angen** am newid mewn deddfwriaeth a darparu tystiolaeth gymhellol mai'r ymyrraeth yw'r dewis gorau a'i bod yn debygol o fod yn werth y gost. Fel rhan o'r Memorandwm, mae gofyniad am Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n cynnwys elfennau costau cyflwyno Bil (ac unrhyw opsiynau eraill a ystyriwyd, ee gwneud dim, cyhoeddi canllawiau ac ati).

Os bydd y Pwyllgor yn dymuno cyflwyno Bil yn y maes hwn byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth a'ch cymorth wrth ddarparu llawer o'r wybodaeth ofynnol hon. O ystyried yr amser cyfyngedig sy'n weddill i ystyried Bil cyn diddymu'r Cynulliad hwn, hoffwn wneud cais ichi ddechrau gwaith paratoadol ar y wybodaeth a fyddai'n ofynnol ar gyfer y Memorandwm. Mae canllaw defnyddiol i'ch cynorthwyo yn y gwaith paratoadol hwn yn Atodiad A. Tynnwyd sylw mewn coch at rai meysydd a dyma'r meysydd y byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn arnynt yn bennaf. Hoffwn ddiolch i chi am eich cymorth wrth baratoi'r dogfennau hyn ac, wrth gwrs, mae fy swyddogion yn hapus i gysylltu â'ch swyddfa i ddarparu unrhyw wybodaeth neu gymorth y gallai fod eu hangen arnoch.

Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurder o ran y cynnig ar gyfer ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i gynnwys gwasanaethau iechyd preifat pan fydd claf wedi derbyn cyfuniad o ofal iechyd cyhoeddus a gofal iechyd preifat (nas comisiynwyd gan y GIG). Byddai o gymorth pe gallech roi diffiniad o bwy y byddech chi'n bwriadu eu cynnwys ac o dan ba amgylchiadau. Ar 4 Chwefror, clywsom gan Wasanaeth Dyfarnu Cwynion y Sector Annibynnol (ISCAS), sy'n gweithredu cod ymarfer cwynion tri cham ar draws sector gofal iechyd annibynnol y DU. Yn ei gyflwyniad, dywed y Gwasanaeth:

> "ISCAS would welcome the opportunity to enter into an information sharing agreement with the Ombudsman to jointly address the type of complaint that crosses between the NHS and independent sector, as referred to by the Ombudsman in his submission."

Mae'r Pwyllgor yn awgrymu efallai y byddai'n werth i chi drafod y cynnig hwn gydag ISCAS. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu nodyn erbyn 18 Chwefror er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y wybodaeth hon cyn clywed gan ein tystion nesaf.

Yn gywir



**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Leanne Hatcher
Clerc/Clerk:
Ffôn/Phone: 0300 200 6343
E-bost / E-mail: Leanne.hatcher@cynulliad.cymru

## **Gofynion** Rheolau Sefydlog y Cynulliad

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn nodi'r gofynion canlynol ar gyfer dogfennaeth i gyd-fynd â Bil:

26.6 Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:

(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil, ym marn yr Aelod, **o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad**;

(ii) nodi **amcanion polisi** y Bil;

(iii) nodi a gafodd **ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi** eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu;

(iv) nodi'r **ymgynghori** a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:

(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; a

(b) manylion y Bil,

ynghyd â chrynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw;

(v) crynhoi yn wrthrychol **yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud** (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;

(vi) **nodi'r amcangyfrifon gorau** o'r canlynol:

(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;

(b) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r costau hynny godi; ac

(c) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;

os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi **pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth**, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:

(a) y person neu'r corff y rhoddir y pwer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;

(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac

(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod odani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); ac

(viii) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth **sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru**, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio.


Leanne Hatcher
Clerc/Clerk:
Ffôn/Phone: 0300 200 6343
E-bost / E-mail: Leanne.hatcher@cynulliad.cymru

**Crynodeb lefel uchel o sut y mae'r Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) yn rhoi sylw i'r gofynion**

**(i) Cymhwysedd** – mae angen cyngor cyfreithiol yma

Perthynas â Deddf Llywodraeth Cymru adran 110 (2), (3), (4), (5)
Wrth gyflwyno Bil, neu cyn ei gyflwyno, rhaid i'r person sy'n gyfrifol amdano nodi y byddai ei ddarpariaethau, ym marn y person hwnnw, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Bydd yn ofynnol i'r Llywydd roi ei barn o ran a yw'r Bil o fewn cymhwysedd, wrth gyflwyno Bil neu cyn ei gyflwyno yn y Cynulliad.
Pwyntiau ychwanegol i'w nodi: Cymharu Deddf Hawliau Dynol 1998 adran 19 – adran 19 (b) – mae'n rhaid bod o fewn cymhwysedd; Mae cymhwysedd yn cynnwys Hawliau'r Confensiwn; Mae hefyd yn cynnwys cyfraith yr UE; a gall yr hyn a gaiff ei esbonio yn y Memorandwm Esboniadol ddylanwadu ar p'un a yw'r Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad ai peidio.

**(ii) Amcanion polisi**

O ran yr amcanion a gweithredu'r polisi, dylai'r Memorandwm nodi'r canlynol:

- Y cefndir o ran nodi'r angen am y Bil.
- Pa amcanion polisi y mae'r Bil yn mynd i'r afael â hwy.
- Disgrifio yn fanwl yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham, gan gynnwys disgrifiad o'r effaith ar yr holl sefydliadau a phersonau y bydd y Bil yn effeithio arnynt.
- Nodi'r sail dystiolaeth sy'n dangos sut y bydd y cynigion yn mynd i'r afael â'r anghenion a amlygwyd yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

*Gall y ddogfen hon gael ei llywio gan y ddogfennaeth gychwynnol a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, wedi'i hategu gan wybodaeth ychwanegol o waith ymchwil pellach a thystiolaeth o ymchwiliad y Pwyllgor.*

**(iii) Dewisiadau polisi eraill**

- Pa ddulliau eraill sydd wedi cael eu hystyried?
- Beth yw'r rhesymeg a'r cyfiawnhad dros y dewis arfaethedig?

**(iv) Ymgynghori**

Os oes ymgynghori wedi digwydd, mae angen i hyn gael ei ddisgrifio ynghyd â chrynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad.

*Nid oes unrhyw amodau o'r hyn y mae ymgynghoriad o'r fath yn ei gynnwys. Y bwriad yw y dylai barn pob sefydliad a pherson y mae'r Bil yn effeithio arnynt gael ei defnyddio wrth lunio polisi, pan fo hynny'n bosibl.*

Leanne Hatcher
Clerc/Clerk:
Ffôn/Phone: 0300 200 6343
E-bost / E-mail: Leanne.hatcher@cynulliad.cymru

*Mae'n bosibl y gallai ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid gyflawni rhan o'r gofyniad hwn.*

### (v) **Crynodeb o effeithiau** – mae angen cyngor cyfreithiol yma

Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y mae adrannau unigol o'r Bil drafft yn ei wneud mewn iaith glir. Gweler Nodiadau Esboniadol o Femorandwm Esboniadol y [Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru),](#) i gael enghraifft.

Dylai hyn hefyd gynnwys a gaiff y Bil unrhyw effaith y tu allan i ffiniau Cymru ac a oes unrhyw faterion trawsffiniol uniongyrchol.

### (vi) **Asesiad effaith rheoleiddiol**

Gweler y manylion yn y ddogfen amgaeedig ar wahân.

### (vii) **Pwerau dirprwyedig** – mae angen cyngor cyfreithiol yma

Fel arfer, mae cydbwysedd i'w gael rhwng cynnwys darpariaethau ar wyneb y Bil a rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

Pan fydd darpariaethau yn cael eu rhoi i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol nodi:

- I bwy y rhoddir y pŵer hwn a sut y caiff y pŵer hwn ei arfer;
- Pam y caiff y pŵer hwn ei ystyried yn gam priodol; a
- Pa fath o waith craffu / gweithdrefn y bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig iddo gan y Cynulliad.

### (viii) **Gwariant a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru**

Os bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, dylid cael adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a yw'r tâl hwn yn briodol.

**Nodyn** Er nad yw'n ofyniad yn y Rheolau Sefydlog, mae hefyd yn arfer da ystyried cynnwys asesiad effaith o ran cydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar hawliau plant.

**Leanne Hatcher**
**Clerc/Clerk:**
**Ffôn/Phone: 0300 200 6343**
**E-bost / E-mail: Leanne.hatcher@cynulliad.cymru**

## Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth: Rhai egwyddorion lefel uchel

### Cyfiawnhau gweithredu

Mae'n rhaid cael tystiolaeth o'r **angen** am newid mewn deddfwriaeth a darparu tystiolaeth gymhellol mai'r ymyrraeth yw'r dewis gorau a'i bod yn debygol o fod yn **werth y gost**.

### Pennu amcanion

Nodi'r canlyniadau a'r amcanion a ddymunir er mwyn canfod yr ystod o opsiynau a all fod ar gael i'w cyflawni.

### Gwerthuso opsiynau

Edrych ar nifer o opsiynau ar lefel uchel, o 'wneud dim' i nifer o ddewisiadau mwy ymyraethol, yna, caiff yr opsiynau hyn eu hasesu yn erbyn yr achos sylfaenol hwn.

Dylid awgrymu nifer o opsiynau, gan gynnwys yr opsiwn o 'wneud dim'.

- Canfod a gwerthuso costau pob dewis ar gyfer o leiaf 3 blynedd o'r cychwyn
- Canfod a gwerthuso manteision pob dewis
- Ystyried yr effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol posibl ar sefydliadau eraill a gwahanol rannau o gymdeithas
- Addasu ar gyfer risg ac optimistiaeth ac ystyried effeithiau newidiadau mewn newidynnau allweddol a gwahanol sefyllfaoedd yn y dyfodol ar yr achos busnes.

### Datblygu a gweithredu datrysiad

Yn dilyn yr opsiwn **gwerthuso**, dylid defnyddio meini prawf a barn i ddewis yr opsiwn neu'r opsiynau gorau, sydd wedyn yn cael eu mireinio i mewn i ddatrysiad.

Mae'n rhaid i faterion a allai gael effaith sylweddol ar weithrediad llwyddiannus cynigion gael eu hystyried yn ystod y gwerthuso.

Bydd angen math o ***ddadansoddiad cost a budd*** sy'n mesur cymaint â phosibl o gostau a manteision ymarferoldeb cynnig mewn termau ariannol, gan gynnwys eitemau lle nad yw tystiolaeth yn rhoi mesur boddhaol o werth economaidd.

***Hefyd, bydd angen dadansoddiad o effeithiolrwydd cost*** yn cymharu costau ffyrdd amgen o gynhyrchu yr un peth neu rywbeth tebyg.

Leanne Hatcher
Clerc/Clerk:
Ffôn/Phone: 0300 200 6343
E-bost / E-mail: Leanne.hatcher@cynulliad.cymru

## Manylion am y mathau o gostau i'w cynnwys

Dylid cynnwys amcangyfrif cyffredinol o'r holl gostau a ragwelir ar gyfer canlyniadau uniongyrchol, anuniongyrchol ac anfwriadol y Bil. Dylai hyn gynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Dylai costau gros gael eu dangos ar gyfer costau uniongyrchol ac anuniongyrchol.
- Dylai costau gweinyddol gael eu cynnwys. Dylai costau gael eu meintioli lle mae adnoddau staff mewnol sy'n bodoli eisoes yn cael eu defnyddio.
- Dylai costau ar gyfer gorfodi a chydymffurfio gael eu cynnwys.
- Unrhyw incwm, ffioedd neu daliadau.

Dylai amcangyfrifon ddangos pa sefydliadau ac unigolion fyddai'n gyfrifol am y costau, pryd y rhagwelir y bydd y costau hyn yn codi (yn ddelfrydol rhwng 3 a 5 mlynedd) a gwahaniaethu rhwng costau un-tro a chostau parhaus.

Lle mae costau yn ansicr, mae'n dderbyniol darparu'r ystod a ragwelir o gostau disgwyliedig, neu ddatgan nad yw'n bosibl amcangyfrif costau oherwydd y rhesymau a nodir.

Mae'n bwysig darparu disgrifiad ac amcangyfrifon o fanteision a ddisgwylir ar ôl cychwyn y Bil. Lle y bo'n bosibl, dylid mesur y manteision hyn.

## I grynhoi

Dylai dadleuon a wnaed roi digon o dystiolaeth i gefnogi eu casgliadau a'u hargymhellion, gyda llwybr archwilio ar gyfer gwirio cyfrifiadau, tystiolaeth ategol a rhagdybiaethau.

## Linc defnyddiol

Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM: arfarnu a gwerthuso mewn llywodraeth ganolog

Leanne Hatcher
Clerc/Clerk:
Ffôn/Phone: 0300 200 6343
E-bost / E-mail: Leanne.hatcher@cynulliad.cymru